

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 30/09/2019 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

Iwan Hughes
Rhodri Ellis Owen

William Penri Jones
Evan Glyn Thomas

Thomas Victor Jones
D Andrew Parry

William Roger Jones
Rhian Parry
Clerc

1. Ymddiheuriadau

Wedi derbyn ymddiheuriadau gan John Brinley Jones a Barbara Warren

2. Datgan Buddiant Ariannol neu Personol

Dim

3. Cofnodion 29/07/2019

Man newid i'r cofnodion i gynnwys; dangos buddiant Iwan Hughes ar gais C19/0672/38/LL a nodi ei fod yn berthynas agos i ymgeisydd Glennydd. Derbyn Cofnodion 29/07/2019 yn gywir ac wedi eu harwyddo.

4. Unrhyw Fater Brys

- Taliad; Mae'r pwyllgor wedi derbyn anfoneb gan Rhyd y Gwystl am wneud gwaith arbennig ar frys i'r potiau blodau. Diolch i Victor Jones am drefnu. Mae'r pwyllgor yn cytuno i dalu £200.00
- Nodwyd bod y bwi wedi i'r lan o fae Llanbedrog yn fuan eleni. Cytunwyd i'r Clerc cael mwy o wybodaeth gan uned forwrol Cyngor Gwynedd.
- Mae perchennog tŷ yn dop y pentref wedi tynnu wal cerrig sydd o flaen ei dy a chlirio yno. Mae'r gerddi a waliau yma yn adlewyrchu cymeriad y pentref. Cytunwyd i'r Clerc gwneud ymholiadau hefo cyngor Gwynedd.
- Mae'r ochrau angen eu torri ar y ffordd fawr ym Mhenrhos er diogelwch y ffyrdd. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu hefo Cyngor Gwynedd.
- Nodwyd bod mynediad i Ben y Berth yn andros o beryg mae Victor Jones yn cynnig y dylai bod llecyn troi yno. Cytunwyd i'r Clerc drafod y mater gyda Chyngor Gwynedd.
- Gwaith ffensio'r Cae Chwarae; Mae'r anfoneb yn ychydig mwy nag yr amcan bris. Mae'r pwyllgor yn cytuno i dalu'r anfoneb.

5. Cae chwarae

Nid oes gyfarfod Pwyllgor Cae Chwarae wedi bod. Nodwyd bod y gwaith ar y ffens eisoes wedi ei wneud. Cytunwyd bod y gwaith o safon uchel ac yn gwella'r sefyllfa yn arw. Mae Evan Glyn Thomas yn nodi bod y si-so bellach wedi pydru ac angen ei waredu. Cynigwyd William Penri Jones (eilydd; Rhodri Ellis Owen) i ofyn i Dei Russel pe bai'n gallu gwneud y gwaith.

Mae'r pwyllgor eisiau nodi faint o daclus ydi'r gwaith ffensio sydd wedi ei wneud o amgylch Neuadd y Pentref. Mae'r pwyllgor hefyd yn nodi bod nifer o gerbydau yn parcio o flaen giât y cae chwarae yn rheolaidd. Posib bydd angen arwyddion mwy.

6. Y Fynwent

Mae nifer o faterion yn codi yn ymwneud a'r fynwent. Cytunwyd y bydd rhaid trefnu cynllun busnes cynhwysfawr yn nodi'r holl waith a chostau tebygol. Bydd hefyd angen cynllunydd, grantiau, parcio a materion cyfreithiol.

Bydd y Clerc yn gwneud ymchwil ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

7. Cofebion

Nid oes diweddariad ar gofebion eto. Penderfynwyd gyrru etoi Cyfoeth Naturiol Cymru.

Clerc – Rhian Hughes-Jones • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •

07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA

Cadeirydd – Iwan Hughes • Iwan.hughes2@btinternet.com • 07973 661 943 •

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 30/09/2019 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

8. Awdit

Mae'r adroddiad a'r ddogfennaeth wedi ei yrru ymlaen i'r BDO. Mae'r BDO wedi codi nifer o bethau yn dilyn derbyn yr adroddiadau. Mae'r materion yn cynnwys trafferthion gyda'r cyfrif banc. Mae Lloyds bellach wedi gyrru nifer o ffurflenni yw llenwi i alluogi newid y mandad. Mae'r Pwyllgor yn enwebu Iwan Hughes (cadeirydd) John B Jones (Is-gadeirydd) Rhian Parry (Clerc) a Evan Glyn Thomas I fod ar y mandad newydd. Bydd angen llenwi'r ffurflenni i gyd cyn y gellir eu dychwelyd i Lloyds.

Mae gwaith eraill dal i fynd yn ei flaen gan obeithio y bydd y materion wedi eu datrys cyn pwyllgor mis Hydref.

9. Rhaglen Hyfforddiant

Mae Un Llais Cymru yn cynnig nifer o gyrsiau budd o fydd i aelodau. Nodwyd y dylid cael rhaglen hyfforddi i'r Cyngor Cymuned. Dylid cynnwys awgrymu bod aelodau newydd yn mynychu hyfforddiant;

Modiwl 1 - Y Cynghorydd

Modiwl 2 – Y Cynghorydd a.y.b..

Bydd y Clerc yn paratoi drafft i'r aelodau.

10. Gorsaf Heddlu Abersoch

Mae Evan Glyn Thomas yn nod y bydd gorsaf yr heddlu Abersoch yn cau. Mae hyn yn gadael diffyg PC o Bwllheli i Aberdaron. Mae hyn yn achosi pryder mawr.

Mae Evan Glyn Thomas yn cynnig (Eilydd: William Penri Jones) ysgrifennu i Heddlu Gogledd Cymru yn nodi'r pryderon a gofyn am eglurhad o'r rhesymau a beth yw'r cynllun i'r dyfodol.

11. Nadolig

Mae'n amserol i drafod trefniadau at y Nadolig. Bydd angen archebu coeden mewn da bryd er mwyn cael un da.

Mae'r goleuadau yn hen a chytunwyd yn dilyn cynnig Evan Glyn Thomas (Eilydd; Penri Jones) ei fod yn amser i bwrcasu goleuadau newydd. Bydd y Clerc yn gwneud ymchwiliadau i oleuadau.

Nodwyd y bydd coeden yn cael ei osod wrth yr eglwys eleni.

Mae pryderon hefyd am y weiren trydan sydd yn mynd ar draws o'r neuadd i'r goeden. Cynigwyd Victor Jones (Eilydd: Rhodri Ellis Owen) i gael trydanwr i wneud soced pwrpasol, mae'r cynnig yn llwyddiannus.

12. Llwybrau

Mae'r llwybrau mynydd wedi dechrau tyfu drosto. Cynigwyd Penri Jones (eilydd: Rhodri Ellis Owen) i dorri'r llwybrau. Bydd y Clerc yn cysylltu hefo Andrew Pozzi i wneud y gwaith.

Ceisiadau Cynllunio

C19/0822/38/TC

Cais am dystysgrif datblygiad cyfreithloni bwriedig ar gyfer estyniad ac addasiadau

Castell Grug, Llanbedrog .

Dim Gwrthwynebiad

Clerc – Rhian Hughes-Jones • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •

07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA

Cadeirydd – Iwan Hughes • Iwan.hughes2@btinternet.com • 07973 661 943 •

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 30/09/2019 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

Taliadau wedi eu cymeradwyo

Cyflog y cleric - Rhian Parry

Gorffennaf 2019 £333.33

Awst 2019 £333.33

£666.66

Taliadau wedi eu Gwneud

Rhyd y Gwistl – Potiau Bloda

£200.00

Iwan Jones – Gwaith ffensio yn y Cae Chwarae

£2184.00

Taliadau wedi eu Derbynn

Llechen Llyn – Gosod Carreg Fedd

£140.00

Gohebiaeth

1. **Cyngor Tref Pwllheli** – Llythyr diolch am cefnogaeth gyda llwybr cyhoeddus.
2. **Data Cymru** - Canlyniadau arolwg – POSW
3. **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru** - Adroddiad Effaith a Chyrhaeddiad 2018-19
4. **Swyddfa Archwilio Cymru** - Rhaglen Ymarfer Da 2019-20
5. **Un Llais Cymru** - Sesiwn Hyfforddi Iaith Gymraeg
6. **Cyngor Gwynedd** - Gorchymyn gwahardd a chyfyngu aros a manau parcio ar y stryd
7. **Un Llais Cymru** - sesiwn hyfforddiant y gogledd cymru
8. **Llywodraeth Cymru** - Framwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru
9. **Prifysgol Cymru Bangor** - Hyrwyddo Cyrsiau Cymraeg i Oedolion
10. **Cyngor Gwynedd** - Her Cymunedau Mentrus
11. **Mantell Gwynedd** - Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Diogelu
12. **Mantell Gwynedd** - Hyfforddiant Addas I Ymddiriedolwyr
13. **Mantell Gwynedd** - Cymhorthfa Galw Mewn Comic Relief
14. **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru - Cymru** Oed-Gyfeillgar Cylchlythy
15. **Un Llais Cymru** - Ddeddf yr Amgylchedd Cymru 2016 - Dyletswydd Cyngorau Chymuned a Thref o dan Adran 6
16. **Swyddfa Archwilio Cymru** - Gwireddu Cymru Gydradd
17. **Mabon ap Gwynfor** – Gwasanaeth Canser Gwynedd
Mae Penri Jones yn cynnig (eilydd: Rhodri Ellis Owen) gyrru llythyr yn cefnogi ac arwyddo'r ddeiseb, Mae'r Cynnig yn llwyddiannus.
18. **Ystadau Cymru** - Cynhadledd

Cais am gyfraniad

1. **O Ddrws i Ddrws** - Cais i ariannu cynllun i ddanfôn pobl i'r feddygfa.
2. **BOBATH** – Canolfan Therapi Plant Cymru.
3. **Ysgol Llanbedrog** – Rhodd i osod polyn fflag
Mae William Roger Jones yn cynnig (eilydd: Andrew Parry) cysylltu gyda'r ysgol i gadarnhau bod y Cyngor Cymuned yn gefnogol ac yn barod i gyfrannu.
4. **Elusen Ambiwylans Awyr Cymru** – Cais am rhodd.
5. **Cynorthwyo Nyrsys a gwasanaethau lleol Marie Curie.**
6. **Parêd Dewi Sant Pwllheli** – Cais am gyfraniad

Clerc – Rhian Hughes-Jones • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •

07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA

Cadeirydd – Iwan Hughes • Iwan.hughes2@btinternet.com • 07973 661 943 •